

CYFFES FFYDD

5. Am arfaeth Duw

Darfu i Dduw, ers tragwyddoldeb, yn ôl cyngor ei ewyllys ei hun, ac er mwyn amlygu a dyrchafu ei briodolaethau gogoneddus, arfaethu pob peth a wnâi efe mewn amser, ac i dragwyddoldeb, mewn creadigaeth, llywodraethiad ei greaduriaid, ac yn iachawdwriaeth pechaduriaid o ddynolryw; eto yn y fath fodd fel nad yw yn awdur pechod, nac yn treisio ewyllys y creadur yn y cyflawniad ohoni [*ei arfaeth*]; (a) ac nid yw arfaeth Duw yn *ddibynnol* ar ddim mewn creadur, na chwaith ar ragwybodaeth Duw ei hun; ond yn hytrach, gŵyr Duw y bydd y cyfryw bethau [yn digwydd] am iddo Ef arfaethu eu bod felly (b). Y mae arfaeth Duw yn anfeidrol ddoeth (c), a pherffaith gyfiawn (d); yn arfaeth dragwyddol (e); yn arfaeth rydd; (f) yn arfaeth eang; (g) yn arfaeth ddirgelaidd (h); yn arfaeth rasol (i); yn arfaeth sanctaidd (j); yn arfaeth dda (k); yn arfaeth anghyfnewidiol (l); ac yn arfaeth effeithiol (m).

5. Of God's Decree.

God, from eternity, after the council of his own will, and for the manifestation

and exaltation of his glorious attributes, decreed all that he would do in time and to eternity, in creation, in the government of his creatures, and in the salvation of sinners of the human race; yet so that he is not the author of sin nor constrains the will of his creature in its actions (a). The decree of God depends not in the least upon the creature nor upon the foreknowledge of God himself; on the

contrary, God knows that certain things will be, because he has decreed that they should be (b). God's decree is infinitely wise (c), and perfectly just (d); eternal (e), free (f), comprehensive (g), secret (h), gracious (i), holy (j), good (k), unchangeable (l), and effectual (m).

(a) Eff./Eph. 1:11; Esea/Isa. 14:24-27; Esea/Isa. 46:10,11; Job 14:5; Job 38:10,11; Salm/Psa. 148:6; Diar./Prov. 8:29; Jer. 5:22; Deut. 32:8; Dan. 4:35; Math./Matt. 10:29,30; Actau/Acts 4:27-28; 15:18; 17:26; Iago/Jam. 1:13.

(b) [Prov.18:13 incorrect orig. English] Diar./Prov.16:33 (arg.1900 ed.); Jer. 18:4-10; Math./Matt. 11:26; Esea/Isa. 46:10; Rhuf./Rom. 9:19-21.

(c) Rhuf./Rom.11:33.

(d) Salm/Psa. 145:17.

(i) 2 Tim. 1:9.

(e) Eff./Eph. 3:11.

(j) Eff./Eph. 1:4.

(f) Rhuf./Rom. 9:15,16.

(k) Rhuf./Rom. 8:28-30

(g) Eff./Eph. 1:11.

(l) Job 23:13,14; Rhuf./Rom.

9:11.

(h) Deut. 29:29.

(m) Esea/Isa. 46:10.